

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Cae'r Gwenyn

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer Ysgol Cae'r Gwenyn yn un am ysgol lle mae pob plentyn yn ffynnu, er gwaethaf unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod ganddo. Mae arweinwyr a staff yn darparu awyrgylch teuluol cynnes yn yr ysgol. Caiff pob disgybl ei werthfawrogi fel unigolyn, a chroesewir eu hanghenion a'u diddordebau yn llawn. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda iawn ac yn trafod pob agwedd ar ddatblygiad y plentyn yn rheolaidd. Maent yn canolbwyntio ar y pethau cadarnhaol ac yn galluogi pob plentyn i ffynnu. Mae cymuned yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i oresgyn heriau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sy'n llai datblygedig na'r rhan fwyaf o'r plant o'u hoedran nhw, ond yn gwneud cynnydd da dros gyfnod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu annibyniaeth ac yn magu hyder trwy gefnogaeth ac anogaeth gyson gan staff medrus yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau trwy chwarae gydag ystod gyfoethog o adnoddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddieiriau pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ond yn datblygu hyder yn eu medrau cyfathrebu yn raddol, gan wneud arwyddion weithiau fel bod pobl yn eu deall. Maent yn parhau i ymgysylltu am gyfnodau byr ac yn dangos lefel ddatblygol o ddealltwriaeth.

Mae lles disgyblion yn ganolog i bopeth yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm difyr yn seiliedig ar ddatblygu medrau cyfathrebu'r disgyblion. Mae profiadau dysgu wedi'u cynllunio i gynorthwyo disgyblion i ddeall a chael eu deall. Mae staff yr ysgol yn hynod fedrus ac yn darparu cymorth rhagorol i ddatblygu medrau geiriol a dieiriau disgyblion. Mae disgyblion yn dangos mwynhad yn ystod gweithgareddau ac yn datblygu hyder wrth wneud dewisiadau am yr hyn yr hoffent chwarae ag ef. Fodd bynnag, mae eu cyfleoedd i ddewis ble maent yn chwarae, a sut, yn llai datblygedig. Maent yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn dangos brwdfrydedd go iawn. Wrth weithio ochr yn ochr ag oedolion, maent yn dangos lefelau datblygol o ganolbwyntio a dyfalbarhad. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn cael eu cysuro gan eu blwch o bethau arbennig, sy'n gyfarwydd iddynt ac yn cael effaith ymlaciol a lleddfol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu ag ymweliadau i gyfoethogi eu dysgu yn llai datblygedig.

# Argymhellion

A1 **Datblygu cyfleoedd ymhellach i ddisgyblion wneud dewisiadau wrth iddynt chwarae**

A2 **Datblygu cyfleoedd ymhellach i ddisgyblion ymgysylltu ag ymweliadau yn yr ardal i ymestyn eu profiadau dysgu**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â datblygu medrau cyfathrebu cynnar gyda disgyblion dieiriau yn bennaf, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cae'r Gwenyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 59 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 12 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 27 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 97% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 100% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2007 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/06/2023 |
| Mae Ysgol Cae'r Gwenyn yn ysgol brif ffrwd ond yn gweithredu fel darpariaeth adnoddau ADY arbenigol. Caiff bron pob un o'r disgyblion eu cyfeirio at y ddarpariaeth gan awdurdod lleol Wrecsam. Mae yna ddisgyblion oedran addysg gynnar, meithrin a derbyn yn yr ysgol ar hyn o bryd. O flwyddyn academaidd 2023-2024, bydd dosbarth o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn yr ysgol am y tro cyntaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae gan bron bob un o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae bron pob un ohonynt yn ddieiriau pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  21/08/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.